

heibio gydag offer neu gyngor ac yn cynnig barn arbenigol ar bopeth o storio coed tan i ffyrdd o atal defaid.

Rydym ni'n dysgu rhythm bywyd yn y cefn gwlad erbyn hyn. Rydym wedi dysgu y gall "ychydig i fyny'r ffordd" olygu unrhyw le o fewn radiws pum milltir; nad ydy'r glaw yma yn disgyn, mae'n ymrwymo; a bod taith i'r siop Co-op leol yn Llanrwst yn cyfrif fel digwyddiad cymdeithasol ac ymarfer cardio yr un pryd. Rydym ni wedi ymuno â grwpiau lleol, archwilio llwybrau coetir ac weithiau hyd yn oed wedi llwyddo i ddeall brawddeg lawn o Gymraeg cyn i'r sgwrs garlamu yn ei blaen eto.

Wrth gwrs, tydy bywyd yma ddim yn berffaith - ond dyna ei swyn. Mae'r Wi-Fi yn pwdu pan fydd y gwynt yn newid, mae gan wres Calor ei feddwl ei hun ac mae'r defaid yn trin yr A470 fel eu promenâd eu hunain. Ond pan fyddwch chi'n camu allan ar fore ffres ac yn gweld golau'r haul yn llifo dros y dyffryn neu'n clywed yr afon yn sibrwd ar ôl noson o law, mae perffeithrwydd yn teimlo fel cysyniad gaiff ei ganmol gormod beth bynnag.

Mae Dolwyddelan wedi rhoi rhywbeth na allai Ascot fyth ei roi: llonyddwch. Mae'n arafu'r pwls ac yn clirio'r sŵn. Mae'n lle sy'n mynnu eich bod chi'n rhoi'r gorau i frysio a dechrau sylwi – arogl mwg coed ar nosweithiau oer, sgwrsio'r ydfrain pan fo hi'n nosi, y balchder tawel o berthyn i gymuned lle mae pobl wirioneddol yn gofalu am ei gilydd.

Wrth symud i'r gogledd, nid yn unig wnaethon ni newid côd post; ond newid cyflymder, persbectif a blaenoriaethau. Rydym wedi dod o hyd i hapusrwydd yma nid drwy ffordd o fyw gyfleus, ond drwy gysylltu - gyda natur, gyda chymdogion a gyda'n gilydd.

Felly, ydy, mae hwn yn llythyr caru - nid yn unig i bentref, ond i'r bywyd y mae wedi ein helpu i ailddarganfod. I sŵn chwerthin yn atseinio yn y dyffryn, i fygiau o de yn oeri ar sil y ffenestr tra bod y glaw yn dawnsio y tu allan ac i fath o heddwch sy'n gofyn am ddim mwy na'ch sylw.

Dolwyddelan, fe gipiaist ti ein calon o'r dechrau un.

Lloyd C. Mason-Boardman